**Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid – 24 Mawrth 2023, Y Senedd, Caerdydd**

Cynhaliwyd ail gyfarfod Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid yn y Senedd ddydd Gwener 24 Mawrth gydag aelodau o Bwyllgor Cyllid y Senedd a Phwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban yn bresennol.

Trafodwyd yr eitemau a ganlyn yn ystod y cyfarfod:

- atebodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, gwestiynau ynghylch y mecanweithiau rhynglywodraethol sydd ar waith i drafod a datrys materion cyllidol sy'n effeithio ar y gweinyddiaethau datganoledig; a

- chafodd yr aelodau gyflwyniad gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar waith Senedd y DU wrth graffu ar y gyllideb, gan ganolbwyntio'n benodol ar effaith Datganiad y Gwanwyn a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth ar gyllid y gweinyddiaethau datganoledig.

Bu'r ddau bwyllgor hefyd yn trafod eu priod raglenni gwaith gan nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin y gellid cydweithio arnynt ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad ar y gwaith a wnaed hyd yma ar drefniadau cyllido ar ôl gadael yr UE, yr anawsterau wrth gael Gweinidogion y DU i gytuno i ddod i gyfarfodydd pwyllgor, a'r heriau parhaus sy'n deillio o weithredu eu priod Fframweithiau Cyllidol.

Cytunodd yr aelodau y bydd cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr hydref. Caiff yr union leoliad a'r dyddiadau eu cytuno maes o law.

<u>Yn bresennol</u>

- Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
- Peter Fox AS, aelod o'r Pwyllgor Cyllid
- Mike Hedges AS
- Rhianon Passmore AS, aelod o'r Pwyllgor Cyllid
- Kenneth Gibson ASA, Cynullydd y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
- Daniel Johnson ASA, Dirprwy Gynullydd y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
- Liz Smith ASA, y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
- Michelle Thomson ASA, y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
- Douglas Lumsden ASA, y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus